

Mai 6<sup>ed</sup>, 2020

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd ar ffurf Telegynhadledd ar nos Fercher, Mai 6<sup>ed</sup>, 2020 am 6.30 yh**

**Presennol**

|            |                    |                |                  |
|------------|--------------------|----------------|------------------|
| Cynghorwyr | R. A. Davies       | Mrs Ll. Latham | Mrs J.E. Collins |
|            | W.D. Evans         | Mrs C. Thomas  | Mrs A. Evans     |
|            | I. Rh. Llewelyn    | D. Hopkins     | P.H. Roberts     |
|            | Mrs K.D. L. Davies | S. J. Roberts  | A.W Jones        |
|            | N. Evans           |                |                  |

**702.**

**Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

**703.**

**COFNODION**

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 26<sup>ain</sup>, 2020.  
Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Chwefror 26<sup>ain</sup>, 2020

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd yna unrhyw fater i'w godi; nid oedd, felly **penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnod cywir.

**Penderfynwyd** hefyd gadarnhau argymhellion y pwyllgorau.

**704.**

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**GOHEBIAETH**

**683.**

**Adroddiadau'r Heddlu ynghylch troseddau**

Crynodeb o'r ystadegau trosedd ar gyfer Mawrth ac Ebrill 2020.

|

**Llandybïe**

Aflonyddu - 4  
Difrod Troseddol - 2  
Ymysod - 2  
Cyfathrebu Maleisus -2  
Troseddau yn ymwneud â chyffuriau – 1  
Bygythiadau i ladd – 1  
Trosedd Arall -1  
Bwrgleriaeth -1

## **Penygroes**

Bwrgleriaeth- 1  
Meddu ar Gyffuriau - 1  
Difrod Troseddol – 2  
Bygythiadau i ladd– 2  
Trosedd Arall – 1  
Trais heb Anaf – 1  
Aflonyddu – 1

## **Saron (gan gynnwys Capel Hendre a Phenybanc)**

Ymosod – 2  
Difrod Troseddol – – 2  
Aflonyddu – 2  
Trais heb Anaf – 2  
Troseddau Eraill – 3  
Lladrad arall – 1  
Troseddau i gerbydau – 1  
Cyfathrebu Maleisus– 1

**706.**

## **ADRODDIAD Y CLERC**

### **Adroddiad y Clerc hyd at Fawrth 31<sup>ain</sup> 2020**

Anfonwyd hwn at y Cyngorwyr drwy ebost, a derbyniwyd cydnabyddiad oddiwrth yr Aelodau eu bod wedi darllen yr adroddiad. Gwnaethpwyd cynnydd ynghylch nifer o faterion.

## **(A)**

### **a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

#### **(i) Gwaith i'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Ardal y Gymuned:**

Roedd manylion gwariant y Cyngor ar yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y Gymuned wedi eu cyflwyno i Uned Hamdden Cefn Gwlad y Cyngor Sir, gyda'r cais bod y costau hyn yn cael eu had-dalu, fel y gwnaethpwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

Cyfanswm cost y gwaith oedd £5273.30, gan eithrio'r elfen TAW sydd yn cael ei hawlio yn ôl yn uniongyrchol gan y Cyngor oddiwrth Gyllid y Wlad.

#### **(ii) Cytundebau Cynnal a Chadw blynyddol – y Rhwydwaith Hawliau Tramwy**

Anfonwyd dogfennau tendr at chwech contractwr, yn gwahodd tendrau am y gwaith o lanhau a thocio'r amrywiol hawliau tramwy yn y Gymuned; bydd angen iddynt ddychwelyd y Tendrau erbyn canol dydd ar y 1<sup>af</sup> o Fai, 2020.

Bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn agor y tendrau er mwyn eu gwirio ac argymhell eu derbyn fel bod modd i'r cytundebau ddechrau yn ystod mis Mehefin 2020.

**(iii) Llwybr Troed 51/120**

Mae'r llwybr troed hwn wedi bod ar gau am 6 mis tra ein bod yn aros i'r bont gael ei hatgyweirio ond, hyd yn hyn, nid yw'r problemau wedi'u datrys. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud cais i Llywodraeth Cymru am estyniad pellach ynghylch cau'r bont tra eu bod yn cynnal asesiadau pellach o'r opsiynau sydd ar gael iddynt.

**b) Parciau ac Ardaloedd Chwarae**

a) Mae'r holl barciau ac ardaloedd chwarae wedi bod ar gau er Mawrth 23<sup>ain</sup>, 2020.

b) Gwaith gwella'r parciau – Mae'r holl waith cynnal a chadw'r parciau wedi dod i ben am y tro.

Mae'r cysgodfan ym mharc Penygroes wedi'i baentio gyda graffiti di-dramgwyddus.

**c) Cyfleusterau Cyhoeddus**

Mae'r Cyfleusterau Cyhoeddus yn Llandybïe a Phenygroes wedi bod ar gau er Mawrth 23<sup>ain</sup>, 2020. Mae'r contractwr wedi derbyn yr wybodaeth, ond wedi'i gyfarwyddo i ymweld â'r safleoedd bob 5 diwrnod er mwyn rhedeg y tapiau/fflwsio'r dŵr yn unol â chanllawiau Cydymffurfedd hsl.

Roedd y Clerc wedi cael ar wybod bod y teclyn dal y papur toiled a'r peiriant sebon wedi'u rhwygo o'r wal a'u dwyn o Gyfleusterau Llandybïe ar ddydd Mercher, Mawrth 11<sup>eg</sup>.

**ch) Adroddiadau Trosedd**

Roedd adroddiadau mis Mawrth wedi'u hanfon at yr Aelodau mewn ebost ar wahan, ac wedi'u cynnwys yn y cyfanswm deufis uchod.

**d) Adnewyddu'r yswiriant 2020/2021**

Derbyniwyd pris adnewyddu o £2241.83 oddiwrth Came and Company arm y flwyddyn ariannol nesaf, i gynnwys Treth Premiwm Yswiriant a'r ffi gweinyddu. Mae'r dyfynbris adnewyddu yn seiliedig ar y symiau yswiriedig, yn fynegrifedig o 4%. Mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i gytundeb tair-blynedd a ddaw i ben ym Mawrth 2021.

Roedd cyrhaeddiad hwyr y ddogfennaeth adnewyddu wedi golygu bod rhaid i'r Clerc ddiwygio'r Gofrestr Asedau Sefydlog a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Polisi yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 5<sup>ed</sup>, ac a gadarnhawyd gan y Cyngor Llawn ar Chwefror 26<sup>ain</sup>, 2020. Roedd y symiau ar y Gofrestr Asedau wedi'u diwygio i adlewyrchu natur mynegrifedig y polisi.

**dd) Gwahardd aros (ar unrhyw adeg) arfaethedig, Heol Ceirios Llandybïe**

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi derbyn cwynion ynghylch cerbydau yn cael eu parcio ar Heol Ceirios, ger ei chyffordd gyda Heol Rhydaman, a bod hyn yn rhwystro'r traffig, ac yn achosi problemau gwelededd wrth bod cerbydau yn cael mynediad i, ac yn gadael y cyffordd. Cynigir gosod llinellau melyn dwbl, 10 metr o hyd, ar y cyffordd.

**e) Gwahardd aros (ar unrhyw adeg) arfaethedig, Parc Bryngelli, Penygroes**

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi derbyn cais i osod arwydd 'gwahardd aros ar unrhyw adeg' ger y mynediad i Barc Bryngelli, Penygroes. Mae'r lleoliad mewn ardal o derfyn cyflymder 30 mya ac mae yno system oleuo'r priffordd ynghyd â llwybrau troed. Bydd gosod y cyfyngiadau hyn yn gymorth i ddiogelwch ffordd yn y lleoliad hwn.

**f) Gwahardd aros (ar unrhyw adeg) arfaethedig, Heol y Gât, Penygroes**

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi derbyn cais i osod arwydd 'gwahardd aros ar unrhyw adeg' ar Heol y Gât ym Mrynfuwch. Mae'r lleoliad mewn ardal o derfyn cyflymder 30 mya ac mae yno system oleuo'r priffordd, parcio ar ac oddiar y ffordd ynghyd â llwybrau troed. Bydd gosod y cyfyngiadau hyn yn gymorth i ddiogelwch ffordd yn y lleoliad hwn.

**ff) Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Roedd yr ohebiaeth yma wedi'i anfon at yr Aelodau mewn ebost ar wahan.

**g) Asesiad Mannau Agored**

Yn ddiweddar, roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal Asesiad Mannau Agored i gasglu gwybodaeth ar gyfer llunio'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r holl fannau agored a mannau hamdden yn y sir wedi'u mapio.

**ng) Gilfach Iago**

Roedd y cyfarfod a drefnwyd rhwng Celtic Energy a Chyngor Sir Caerfyrddin, i'w gynnal ar Fawrth 4<sup>ydd</sup>, 2020, wedi'i ohirio.

**h) Hygyrchedd y We**

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau ar Gyfer Dyfeisiau Symudol) 2018, mae gofyn bod y Cyngor yn diweddarau ei wefan ddwyieithog fel ei bod yn hygyrch, ac felly yn sicrhau bod cymaint â phosib o'r bobl yn gallu ei defnyddio. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny sydd a nam ar eu golwg, anawsterau echddygol, nam gwybyddol neu anawsterau dysgu, sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw.

Roedd y Clerc wedi trafod y mater gyda chwmni ICT Vision, y cwmni sy'n lletya'r wefan ar hyn o bryd, ac roeddent wedi'i hysbysu y byddai, er mwyn diwallu'r cynllun a'r cynnwys, angen creu gwefan newydd. Roedd sgysiaid gyda chynllunwyr gwefan eraill wedi cadarnhau hyn.

Bydd y gost o ddylunio ac adeiladu gwefan hygyrch newydd, gan gynnwys ysgrifennu datganiad hygyrchedd pwrpasol a throsglwyddo'r holl ddata presennol, yn gyfanswm o £1345 a TAW.

Mae Cymdeithas Clercod Llywodraeth Leol wedi creu partneriaeth gyda chwmni o'r enw Aubergine :

Blwyddyn 1 – sefydlu a chostau cynnal - £1995 a TAW

a £25 yr awr i drosglwyddo'r wybodaeth sydd ar y wefan bresennol – efallai £500 - a hanner diwrnod o hyfforddiant - £199 a TAW

Blwyddyn 2 - £1020 a TAW

Mae cwmni Design Reaction wedi cynnig dyfynbris o £1600 a TAW, ond byddai'n rhaid i'r Clerc lanlwytho'r wybodaeth gyfredol. Byddai angen hyfforddiant ar gyfer y wefan newydd.

Roedd y Clerc wedi argymhell ein bod yn aros gyda chwmni ICT Vision, gan eu bod wedi darparu cymorth ardderchog hyd yn hyn.

#### **i) Cynllun Pensiwn**

Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad bod y Cyngor wedi cwblhau'r ail-ddatganiad ei fod yn cydymffurfio gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau ynghylch ei ddyletswyddau Cofrestru Awtomatig. Mae angen gwneud hyn bod tair blynedd, gan ail-ymrestru pob aelod o staff i gynllun pensiwn NEST. Roedd y Clerc a'r Swyddog Gweinyddol ill dau wedi optio allan o'r cynllun, felly ni fyddai'r Cyngor yn atebol am unrhyw daliadau pensiwn.

#### **j) Gwefan**

Roedd y Clerc wedi ychwanegu tudalen newydd i'r wefan - COVID 19 – a bydd yn parhau i ychwanegu unrhyw ddogfennau a fydd efallai o gymorth i'r cyhoedd parthed manylion cyswllt yr amrywiol fudiadau.

#### **l) Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i gasglu sbwriel / torri'r glaswellt / cynnal a chadw'r grîn bowlio**

Roedd y gwaith o fonitro'n agos a wnaethpwyd yn unol â thelerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi arwain at arbediad o £5246.22 yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/2020. Gwnaethpwyd taliad o £20914.78 i Gyngor Sir Caerfyrddin.

**Penderfynwyd** nodi, yn ôl-weithredol, yr ohebiaeth ac i gytuno â'r penderfyniadau uchod a wnaethpwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd yn ystod mis Mawrth 2020.

#### **(B)**

#### **Adroddiad y Clerc hyd at Ebrill 30<sup>ain</sup>, 2020**

##### **a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

##### **(i) Gwaith i'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Ardal y Gymuned:**

Derbyniwyd ad-daliad o £3000 oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin am y flwyddyn ariannol 2019/20.

##### **(ii) Cytundebau Cynnal a Chadw blynyddol – y Rhwydwaith Hawliau Tramwy**

Roedd y Clerc a'r Cadeirydd wedi agor y tendrau ar Fai 1<sup>af</sup> 2020. Penderfynwyd yn ystod y cyfarfod y dylid derbyn y Tendrau isaf a dderbyniwyd ar gyfer pob contract, yn amodol ar bod y Clerc yn cynnal gwiriad rhifyddol. Roedd y Cytundebau rhif 2 a 3 wedi'u dyfarnu i L Stamp am gyfanswm o £740 heb gynnwys TAW, ac roedd Cytundeb rhif 1, a Chytundebau 4 i 9 wedi'u

Mai 6<sup>ed</sup>, 2020

dyfarnu i Dynevor Tree Services am gyfanswm o £2425, heb gynnwys TAW. Nid oedd angen cywiro'r tendrau a dderbyniwyd, ac roedd y Contractwyr a dderbyniwyd wedi'u hybysu'n briodol, fel bod y gwaith yn gallu mynd yn ei flaen cyn gynted ag y bo modd.

**Penderfynwyd** cymeradwyo dyfarnu'r cytundebau hyn.

#### **b) Banc Bwyd Rhydaman**

Anfonwyd rhodd o £500 at Fanc Bwyd Rhydaman, gan fod hyn wedi'i gytuno gan y Cynghorwyr drwy ebost.

Bydd rhodd pellach o £500 yn cael ei anfon ar Fai 1<sup>af</sup>, 2020.

#### **c) Makerspace Dyffryn Aman**

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Daniel Morris yn gofyn am gymorth ariannol i helpu cynhyrchu mygydau, er mwyn mynd i'r afael ag ymlediad y feirws Covid 19. Roedd *Frontline 3D Print Farms* wedi'i sefydlu o dan ambarel Cyngor Tref Cwmaman, ac eisoes wedi helpu cyflenwi cyfarpar diogelu personol hanfodol i ysbytai, meddygfeydd a chartrefi gofal lleol.

Gan ymateb drwy ebost i gynnig y Cadeirydd, cytunodd yr Aelodau wneud rhodd o £200.

#### **ch) Cais am Drwydded Mangre**

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch cais am Drwydded Mangre a dderbyniwyd oddiwrth Zoo Brew, Excal House, Ystad Ddiwydiannol Capel Hendre i gyflenwi alcohol rhwng 8yb a 6yh o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac o 10yb tan 4yh ar ddydd Sul.

Roedd Cynghorwyr ward Saron wedi'u hysbysu, ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ynghylch y cais.

#### **d) Cau Croesfan y Rheilffordd**

Derbyniwyd hysbysiad oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin y byddai'r groesfan reilffordd yn Nhirydail ar gau am gyfnod o 24 awr ar Fai 21<sup>ain</sup>, 2020, i ganiatau i Network Rail wneud gwaith cynnal a chadw hanfodol.

Bydd croesfan reilffordd Llandybïe ar gau ar Fai 20<sup>fed</sup>, 2020 rhwng 10yb a 6yh fel bod modd gwneud gwaith tebyg.

#### **dd) Y Comisiynydd Gwybodaeth**

Roedd y ffi Diogelu Data blynyddol o £40 wedi'i anfon at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn adnewyddu'r hawl o dan GDPR a'r Ddeddf Diogelu Data 2018.

#### **e) Difrod yn y parc**

Yn ystod mis Ebrill difrodwyd ffensys y MUGA ym Mhenygroes ac yn Llandybïe, ac roedd hyn yn cynrychioli problem Iechyd a Diogelwch i unrhyw ddefnyddwyr posib. Roedd y Clerc wedi derbyn dyfynbrisiau oddiwrth dri chontractwr ac, ar ôl trafod y mater gyda'r Cadeirydd, roedd y contract wedi'i ddifarnu i MBP Fencing.

Mai 6<sup>ed</sup>, 2020

Yn ychwanegol, gofynnwyd i'r contractwr i wneud yr atgyweiriadau hynny sydd eu hangen ym MUGA Penygroes, a sydd wedi'u nodi yn yr adroddiadau arolygu misol a blynyddol o'r parc.

Roedd pyst rygbi y plant ym mharc Penygroes hefyd wedi'u nodi i fod o risg uchel, a gwnaethpwyd trefniadau i ail-osod y pyst mewn concrit.

#### **f) Praesept**

Derbyniwyd y taliad cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/ 21, sef £60000, oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin ar Ebrill 30<sup>ain</sup>, 2020.

#### **ff) Parc Penybanc**

Roedd y Clerc wedi drafftio dogfen dendr am amnewid offer, tirlunio a llwybrau troed ym Mharc Penybanc; y dyddiad cau yw Mai 15<sup>ed</sup>, 2020. Anfonwyd y ddogfennaeth at bump contractwr.

**Penderfynwyd** y dylid ystyried y dyfynbrisiau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**707.**

#### **MATERION ARIANNOL**

##### **(i) Talu'r biliau**

Adroddodd y Clerc i'r biliau canlynol gael eu derbyn yn ystod mis Mawrth 2020 a, gyda chydysyniad y Cadeirydd, eu talu:

|      |                                   |                                                                      |          |
|------|-----------------------------------|----------------------------------------------------------------------|----------|
| 5117 | EDF                               | MUGA Llandybïe – Chwefror 2020                                       | £9.88    |
| 5118 | Came and Company                  | Adnewyddu'r yswiriant - 1/4/20 hyd at 31/3/21                        | £2241.83 |
| 5119 | Wrenvale Nurseries and Landscapes | Cynnal a chadw'r gwelyau blodau ar Sgwâr Saron, 10/19 hyd at 3/20    | £216.00  |
| 5120 | Martin Davies                     | Cyfieithu Cofnodion cyfarfodydd Cyffredin a Chynllunio Chwefror 2020 | £142.80  |
| 5121 | Fenland Leisure Ltd               | Prynu siglen gwely fflat                                             | £58.80   |
| 5122 | Cydymffurfedd hsl                 | Hylendid dŵr – Ymweliadau ar Chwefror 20                             | £159.00  |
| 5123 |                                   | Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, Mawrth 2020       | £2182.80 |
| 5124 | S Griffith                        | Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, Mawrth 2020       | £627.40  |
| 5125 | R Thomas<br>Cyllid y Wlad         | Mawrth 2020                                                          | £885.83  |
| 5126 | D J Electrical                    | EICR yn y sied fowlio yn dilyn y difrod a achoswyd gan ddŵr          | £240.00  |
| 5127 | EDF                               | Sied fowlio Llandybïe– Chwefror 2020                                 | £22.85   |

Mai 6<sup>ed</sup>, 2020

|      |                        |                                                                                                                                                 |           |
|------|------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| 5128 | EDF                    | Parc Penygroes – Chwefror 2020                                                                                                                  | £10.09    |
| 5129 | EDF                    | Parc Capel Hendre – Chwefror 2020                                                                                                               | £12.00    |
| 5130 | Newhall Janitorial     | Nwyddau i'r Cyfleusterau Cyhoeddus                                                                                                              | £136.25   |
| 5131 | Smith of Derby         | Gwasanaeth blyneddol – Cloc Cilrychen                                                                                                           | £283.20   |
| 5132 | Jeff's Tipper Hire     | Agor a chau'r Cyfleusterau Cyhoeddus                                                                                                            | £868.00   |
| 5133 | SSE Swalec             | Trydan yn nhoiledau Penygroes 19/3/10 – 12/3/20                                                                                                 | £33.20    |
| 5134 | Cyngor Sir Caerfyrddin | Costau Goleuo'r Llwybrau Troed 1/4/19 – 31/3/20                                                                                                 | £6508.51  |
| 5135 | D J Electrical         | Adnewyddu ac ail-weirio'r sied fowlio                                                                                                           | £720.00   |
| 5136 | Cyngor Sir Caerfyrddin | Tynnu i ffwrdd ac amnewid siglenni a fandaleiddiwyd ym Mharc Capel Hendre, gan gynnwys gosod un siglen grud newydd                              | £362.50   |
| 5137 | Hefin Jones            | Gwasanaeth cyfieithu                                                                                                                            | £170.00   |
| 5138 | Cydymffurfedd hsl      | Hylendid dŵr - ymweliadau mis Mawrth                                                                                                            | £221.54   |
| 5139 | HoWLTA                 | Adnewyddu'r Aelodaeth Flynyddol Treuliau 11/12/19 hyd at 31/3/20, gan gynnwys band llydan, teithio a chostau post                               | £18.00    |
| 5140 | S Griffith             |                                                                                                                                                 | £258.96   |
| 5141 | EDF                    | Pafiliwn Llandybïe – Mawrth 2020                                                                                                                | £29.61    |
| 5142 | EDF                    | Parc Capel Hendre – Mawrth 2020                                                                                                                 | £7.77     |
| 5143 | EDF                    | MUGA Llandybïe – Mawrth 2020                                                                                                                    | £9.88     |
| 5144 | Cyngor Sir Caerfyrddin | Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer torri'r glaswellt / casglu sbwriel / cynnal a chadw cyffredinol yn y parciau a chynnal a chadw'r grîn bowlio | £20914.78 |

Derbyniwyd yr anfonebau canlynol yn ystod mis Chwefror 2020 a, gyda chydysyniad y Cadeirydd, eu talu:

|      |                        |                                                                 |          |
|------|------------------------|-----------------------------------------------------------------|----------|
| 5145 | Banc Bwyd Rhydaman     | Rhodd                                                           | £500.00  |
| 5146 | SSE Swalec             | Trydan yn nhoiledau Llandybïe 12/12/19 – 13/3/20                | £45.40   |
| 5147 | S Griffith             | Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa - Ebrill 2020 | £2191.56 |
| 5148 | R Thomas               | Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa - Ebrill 2020 | £635.60  |
| 5149 | Cyllid y Wlad          | Ebrill 2020                                                     | £867.08  |
| 5150 | Comisiynydd Gwybodaeth | Ffi cofrestru blyneddol                                         | £40.00   |

Mai 6<sup>ed</sup>, 2020

|      |                        |                                                                              |          |
|------|------------------------|------------------------------------------------------------------------------|----------|
| 5151 | EDF                    | Parc Penygroes – Mawrth 2020                                                 | £11.09   |
| 5152 | EDF                    | Pafiliwn Saron – Mawrth 2020                                                 | £293.49  |
| 5153 | EDF                    | Sied Fowlio Llandybïe – Mawrth 2020                                          | £18.52   |
| 5154 | ICT Vision             | 50% o'r ffi am ddylunio'r wefan hygyrch newydd                               | £807.00  |
| 5155 | Morgan and Morgan      | Ebost ac Outlook 365 – tanystrigiad blynyddol                                | £1232.28 |
| 5156 | Morgan and Morgan      | Defnyddiau traul i'r argraffydd                                              | £354.07  |
| 5157 | B T                    | Bil ffôn y Clerc 15/4/20 – 17/4/20                                           | £112.24  |
| 5158 | Jeff's Tipper Hire     | Dyletswyddau hylendid dŵr yn y cyfleusterau cyhoeddus yn ystod Ebrill 2020   | £168.00  |
| 5159 | SSE Swalec             | Trydan i'r Swyddfa a'r Siambr 1/9/20 hyd at 16/4/20                          | £62.92   |
| 5160 | Cyngor Sir Caerfyrddin | Galwad argyfwng i Sied Fowlio Llandybïe i drwsio difrod a achoswyd gan storm | £392.22  |

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliadau a gytunwyd arnynt gan y Cadeirydd.

**(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol**

|                                   | 2018/19 Elw<br>a Chollod<br>£ | 2019/20<br>Amcangyfrif<br>£ | Incwm a<br>gwariant<br>gwirioneddol<br>1.4.19-<br>29.02.20<br>£ |
|-----------------------------------|-------------------------------|-----------------------------|-----------------------------------------------------------------|
| Praesept                          | 180,000                       | 180,000                     | 180,000                                                         |
| Grant Cynnal a Chadw              | 46,640                        | 0                           | 3,841                                                           |
| Llog Lloyds                       | 184                           | 250                         | 125                                                             |
| Llog: cyfrifon buddsoddi          | 306                           | 400                         | 532                                                             |
| Ad-daliad EDF                     | 166                           | 0                           | 1206                                                            |
| Hawliau Tramwy                    | 3000                          | 3,000                       | 3000                                                            |
| Llogi'r cyfleusterau              | 0                             | 4,200                       | 4,700                                                           |
| Ad-daliad CSC o VAS               |                               | 1800                        |                                                                 |
|                                   | 230,296                       | 189,650                     | 193,404                                                         |
| Gweinyddu Cyffredinol             | 50,722                        | 56,575                      | 22,544                                                          |
| Staffio                           | 41,226                        | 43,656                      | 42,456                                                          |
| Parciau ac Ardaloedd Chwarae      | 50,062                        | 30,000                      | 106,837                                                         |
| Taliadau Adran 137                | 7,348                         |                             | 6,159                                                           |
| Taliadau yn unol â phwerau eraill | 1,850                         |                             | 1,800                                                           |
| Mannau agored cyhoeddus           | 1,663                         |                             | 4,450                                                           |
| Neuaddau pentref                  | 4,545                         |                             | 3,920                                                           |
| Claddfeydd                        | 3,250                         | 18000                       | 2,750                                                           |

Mai 6<sup>ed</sup>, 2020

|                                 |       |       |       |
|---------------------------------|-------|-------|-------|
| Hawliau Tramwy – cynnal a chadw | 4,745 | 10000 | 5,876 |
| Hawliau Tramwy – gwelliannau    |       |       |       |

|                               |         |         |         |
|-------------------------------|---------|---------|---------|
| Goleuo cyhoeddus - ynni       | 7,877   |         |         |
| Goleuo cyhoeddus - gwelliant  | 0       | 8,500   |         |
| Datblygu Cymunedol            | 68,555  | 25,000  | 30,363  |
| Cyfleusterau Cyhoeddus        | 4,572   |         |         |
| Llandybïe                     |         |         | 5,251   |
| Cyfleusterau Cyhoeddus        |         |         |         |
| Penygroes                     | 3,704   | 10,000  | 6,068   |
| Lwfans y Cadeirydd            | 300     | 300     |         |
| Cyfanswm                      | 250,419 | 202,031 | 238,474 |
| Balans am y flwyddyn (cyfnod) | -20,123 |         | -45,070 |
| d/y                           | 438,102 |         | 417,979 |
| c/y                           | 417,979 |         | 372,909 |

Arian parod a buddsoddiadau  
Dyledwyr  
Credydwyr

|         |  |         |
|---------|--|---------|
| 402,723 |  | 364,422 |
| 15,256  |  | 8,487   |
| 0       |  | 0       |
| 417,979 |  | 372,909 |

|                              | 2018/19 Elw<br>a Chollod<br>£ | 2019/20<br>Amcangyfrif<br>£ | Incwm a<br>gwariant<br>gwirioneddol<br>1.4.19-<br>31.03.20<br>£ |
|------------------------------|-------------------------------|-----------------------------|-----------------------------------------------------------------|
| Praesept                     | 180,000                       | 180,000                     | 180,000                                                         |
| Grant Cynnal a Chadw         | 46,640                        | 0                           | 3,841                                                           |
| Llog Lloyds                  | 184                           | 250                         | 134                                                             |
| Llog: cyfrifon buddsoddi     | 306                           | 400                         | 532                                                             |
| Ad-daliad EDF                | 166                           | 0                           | 1206                                                            |
| Hawliau Tramwy               | 3000                          | 3,000                       | 3000                                                            |
| Llogi'r cyfleusterau         | 0                             | 4,200                       | 4,700                                                           |
| Ad-daliad CSC o VAS          |                               | 1800                        |                                                                 |
|                              | 230,296                       | 189,650                     | 193,413                                                         |
| Gweinyddu Cyffredinol        | 50,722                        | 56,575                      | 26,053                                                          |
| Staffio                      | 41,226                        | 43,656                      | 46,152                                                          |
| Parciau ac Ardaloedd Chwarae | 50,062                        | 30,000                      | 128,964                                                         |
| Taliadau Adran 137           | 7,348                         |                             | 6,159                                                           |
| 431                          |                               |                             |                                                                 |
|                              |                               |                             | Cadeirydd                                                       |

Mai 6<sup>ed</sup>, 2020

|                                   |         |         |         |
|-----------------------------------|---------|---------|---------|
| Taliadau yn unol â phwerau eraill | 1,850   |         | 1,800   |
| Mannau agored cyhoeddus           | 1,663   |         | 4,450   |
| Neuaddau pentref                  | 4,545   |         | 3,920   |
| Claddfeydd                        | 3,250   | 18000   | 2,750   |
| Hawliau Tramwy – cynnal a chadw   | 4,745   | 10000   | 5,746   |
| Hawliau Tramwy – gwelliannau      |         |         |         |
| Goleuo cyhoeddus - ynni           | 7,877   |         | 5,424   |
| Goleuo cyhoeddus - gwelliant      | 0       | 8,500   |         |
| Datblygu Cymunedol                | 68,555  | 25,000  | 30,543  |
| Cyfleusterau Cyhoeddus            |         |         |         |
| Llandybïe                         | 4,572   |         | 5,871   |
| Cyfleusterau Cyhoeddus            |         |         |         |
| Penygroes                         | 3,704   | 10,000  | 6,559   |
| Lwfans y Cadeirydd                | 300     | 300     |         |
| Cyfanswm                          | 250,419 | 202,031 | 274,391 |
| Balans am y flwyddyn (cyfnod)     | -20,123 |         | -80,978 |
| d/y                               | 438,102 |         | 417,979 |
| c/y                               | 417,979 |         | 337,001 |
| Arian parod a buddsoddiadau       | 402,723 |         | 327,080 |
| Dyledwyr                          | 15,256  |         | 9,921   |
| Credydwyr                         | 0       |         | 0       |
|                                   | 417,979 |         | 337,001 |

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau.  
**Penderfynodd** yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

### (iii) Cysoniad arian parod ar gyfer Mawrth 2020

Roedd y Cynghorydd D. Nicholas wedi cynnal adolygiad llawn a boddhaol o'r Llyfr Arian Parod ar Ebrill 2<sup>il</sup>, 2020. Nid oedd unrhyw fater i'w godi.

### (iv) I gymeradwyo yr adroddiad ariannol, 2019-20

Roedd y Clerc wedi dosbarthu copïau, drwy gyfrwng ebost, o'r adroddiad ariannol am y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar Fawrth 31<sup>ain</sup> 2020, ac a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Archwilydd Mewnol. Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau ynghylch yr adroddiad. Ni wnaethpwyd unrhyw sylw.  
 Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

Mai 6<sup>ed</sup>, 2020

**708.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Fai 27<sup>ain</sup>, 2020

**709.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.10 yh.

Mai 6<sup>ed</sup>, 2020